**Gwybodaeth i Ymgeiswyr**

**Gwybodaeth Amdanoch Chi a Sut Rydym yn ei Defnyddio**

Rydych wedi cofrestru am gymwysterau cyffredinol neu alwedigaethol fel TGAU, Safon Uwch, sgiliau gweithredol ac ati gydag un neu fwy o'r cyrff dyfarnu i'w gweld uchod. Er mwyn gallu darparu arholiadau ac asesiadau, mae angen i'r corff dyfarnu gasglu a defnyddio gwybodaeth amdanoch. Mae'r hysbysiad hwn yn rhoi crynodeb ar lefel uchel i chi o'r wybodaeth y mae'r gyfraith yn gofyn i'r corff dyfarnu ei rhoi i chi am yr hyn a fydd yn digwydd i'r wybodaeth honno. Am fwy o fanylion, gweler Hysbysiad Preifatrwydd llawn pob corff dyfarnu:

| | |
|---|---|
| AQA | https://www.aqa.org.uk/about-us/privacy-notice |
| CCEA | http://ccea.org.uk/legal/privacy_policy |
| City & Guilds | https://www.cityandguilds.com/help/help-for-learners/learner-policy |
| NCFE | https://www.ncfe.org.uk/legal-information |
| OCR | https://www.ocr.org.uk/about/our-policies/website-policies/privacy-policy/ |
| Pearson | https://www.pearson.com/corporate/privacy-notice.html |
| CBAC | https://www.cbac.co.uk/about-us/data-protection/?language_id=2 |

**Pwy ydym ni a sut i gysylltu â ni**

Mae pob corff dyfarnu yn sefydliad ar wahân. Bydd eich ysgol neu ganolfan arholiadau yn gallu cadarnhau pa gorff dyfarnu sy'n darparu pob cymhwyster rydych chi'n ei gymryd a byddwch yn derbyn datganiad yn cadarnhau ar gyfer pa gymwysterau rydych chi wedi'ch cofrestru a gyda pha gorff dyfarnu. Mae cysylltau â gwefan pob corff dyfarnu a gwybodaeth am sut i gysylltu â nhw yma: www.jcq.org.uk/contact-us/contact-details-for-jcq-and-members.

**Gwybodaeth amdanoch chi ac o ble mae'r wybodaeth yn dod**

Bydd angen i bob corff dyfarnu, yr ydych chi'n cofrestru am eu cymwysterau, ddefnyddio amrywiaeth o wybodaeth amdanoch chi. Mae hyn yn cynnwys manylion adnabod amlwg fel eich enw, cyfeiriad, dyddiad geni a'ch ysgol neu ganolfan arholiadau. Mae hefyd yn cynnwys gwybodaeth am eich rhywedd, hil ac iechyd, lle y bo'n briodol. Chi neu eich rhieni/gwarcheidwaid a/neu eich ysgol neu ganolfan arholiadau fydd yn rhoi'r wybodaeth hon.

Bydd pob corff dyfarnu yn creu gwybodaeth benodol amdanoch chi fel rhif yr ymgeisydd, canlyniadau a thystysgrifau arholiadau.

Mae mwy o wybodaeth am hyn yn Hysbysiad Preifatrwydd llawn y cyrff dyfarnu (gweler y cysylltau uchod) neu drwy gysylltu â'r corff dyfarnu (gweler uchod).

**Beth sy'n digwydd i'r wybodaeth amdanoch chi**

Mae'r cyrff dyfarnu yn defnyddio'r wybodaeth amdanoch chi i ddarparu'r arholiadau a'r asesiadau rydych chi wedi cofrestru amdanynt. Mae hyn yn cynnwys gwneud amrywiaeth o drefniadau i chi sefyll yr arholiadau neu'r asesiadau, marcio, rhoi canlyniadau a thystysgrifau i chi a'ch ysgol neu ganolfan. Mae'r cyrff dyfarnu hefyd yn defnyddio rhywfaint o'r wybodaeth amdanoch chi i fonitro cydraddoldeb a rhywfaint o ddadansoddi ystadegol arall.

Gallai'r cyrff dyfarnu rannu gwybodaeth am eich canlyniadau â chyrff swyddogol fel yr Adran Addysg a'r rheoleiddwyr arholiadau (e.e. Ofqual yn Lloegr) a hefyd awdurdodau lleol perthnasol a'r Gwasanaeth Derbyn Prifysgolion a Cholegau (UCAS). Gall corff dyfarnu hefyd ddefnyddio gwybodaeth amdanoch chi i ymchwilio i dwyllo ac achosion eraill o gamymddwyn mewn arholiadau, a bydd yn rhannu gwybodaeth am gamymddwyn gyda chyrff dyfarnu eraill.

Mae'r cyrff dyfarnu yn ofalus iawn o ddiogelwch y wybodaeth sydd ganddynt amdanoch.

Mae gwybodaeth dechnegol, bellach am yr hyn mae'r cyrff dyfarnu'n ei wneud â'r wybodaeth amdanoch chi, pam, a'r sail gyfreithiol wedi'i chynnwys yn Hysbysiad Preifatrwydd llawn y cyrff dyfarnu, y gellir ei weld yma (gweler y cysylltau ar dudalen un) neu drwy gysylltu â'r corff dyfarnu (gweler uchod).

**Eich Hawliau**

Mae'r gyfraith yn rhoi nifer o hawliau i chi o ran y wybodaeth sydd gan y corff dyfarnu amdanoch chi. Yr hawliau hynny yw:

- Mynediad – mae gennych yr hawl i ofyn i bob corff dyfarnu am y wybodaeth sydd ganddo amdanoch.
- Cywiro – mae gennych yr hawl i ofyn i bob corff dyfarnu gywiro unrhyw wallau yn y wybodaeth sydd ganddynt amdanoch.
- Dilead – mewn rhai amgylchiadau, mae gennych yr hawl i ofyn i bob corff dyfarnu ddileu'r wybodaeth sydd ganddynt amdanoch.
- Gwrthwynebu neu gyfyngu ar brosesu – mewn rhai amgylchiadau, mae gennych yr hawl i ofyn i gorff dyfarnu beidio â defnyddio gwybodaeth amdanoch mewn ffyrdd penodol.
- Cwyno – mae gennych yr hawl i gwyno i'r Comisiynydd Gwybodaeth (y corff sy'n rheoleiddio'r defnydd o wybodaeth bersonol) am yr hyn mae pob corff dyfarnu'n ei wneud â'r wybodaeth amdanoch chi.

Mae mwy o wybodaeth am eich hawliau o ran gwybodaeth amdanoch chi yn Hysbysiad Preifatrwydd llawn y cyrff dyfarnu unigol, y gellir eu gweld yma (gweler y cysylltau ar dudalen un) neu drwy gysylltu â'r corff dyfarnu (gweler uchod).

**Pa mor hir bydd y wybodaeth amdanoch chi yn cael ei chadw**

Mae pob corff dyfarnu yn cadw gwybodaeth amdanoch chi cyhyd ag y bydd ei hangen yn unig. Dim ond yn ystod y cyfnod y byddwch yn sefyll yr arholiad neu'r asesiad y bydd angen rhywfaint o'r wybodaeth, bydd yn cael ei dinistrio'n ddiogel ychydig amser ar ôl hynny. Mae gwybodaeth arall amdanoch chi, fel eich enw, rhywedd, cyfeiriad, cymhwyster a phynciau a gofrestrwyd a'r canlyniadau, yn cael eu cadw am gyfnod amhenodol ac am o leiaf 40 o flynyddoedd.

Mae gan bob corff dyfarnu ei bolisi cadw ei hun sy'n nodi pa wybodaeth mae'n ei chadw, sut mae'r wybodaeth honno'n cael ei chadw ac am ba mor hir. Gallwch gael gwybod mwy am bolisïau cadw drwy gysylltu â phob corff dyfarnu (gweler uchod).

**Sut i ddod i wybod mwy am y wybodaeth mae cyrff dyfarnu'n ei defnyddio amdanoch chi**

I ddod i wybod mwy am y wybodaeth mae'r cyrff dyfarnu'n ei chasglu ac yn ei defnyddio amdanoch chi, yn cynnwys beth sy'n digwydd i'r wybodaeth honno a pham, gallwch edrych ar Hysbysiad Preifatrwydd llawn y cyrff dyfarnu, sydd ar gael yma (gweler y cysylltiadau ar dudalen un) neu gysylltu â'r corff dyfarnu. Mae cysylltau â gwefan pob corff dyfarnu a gwybodaeth am sut i gysylltu â nhw yma: www.jcq.org.uk/contact-us/contact-details-for-jcq-and-members.

**Noder**

Mae'n bwysig nodi bod yr hysbysiad hwn ond yn ymwneud â sut mae'r cyrff dyfarnu'n defnyddio gwybodaeth amdanoch chi (sef eich "data personol"). Gellir cyflwyno unrhyw gŵyn am sut mae corff dyfarnu'n trin eich data personol i'r Comisiynydd Gwybodaeth (www.ico.org.uk). Mae gwybodaeth am yr arholiadau a'r asesiadau eu hunain, yn cynnwys y rheolau am asesiadau, i'w chael ar dudalennau Swyddfa Arholiadau'r CGC (www.jcq.org.uk/exams-office). Mae'r cyrff dyfarnu'n cael eu rheoleiddio gan Ofqual (http://www.gov.uk/government/organisations/ofqual) yn Lloegr; Cymwysterau Cymru (www.qualificationswales.org) yng Nghymru, a'r Cyngor Cwricwlwm, Arholiadau ac Asesiadau (http://ccea.org.uk/regulation) yng Ngogledd Iwerddon.